# Bwletin Lifrai Cymru
## Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru

**Rhifyn Rhif 27** **Medi 2023**

**<u>LLYTHYR Y MEISTR</u>**



Annwyl Pawb

Ar ôl mis Awst tawel, ailgychwynnwyd gweithgareddau gyda chinio dydd Sul ysblennydd ar 3ydd, Medi 2023 yn Llety Nant Ddu, gweler yr erthygl.

Ar y 30ain, Medi 2023 mae gennym ein Cyngerdd Gala Pen-blwydd yn 30 oed yn St German yng Nghaerdydd. Dewch draw i gefnogi'r digwyddiad hwn neu os nad ydych yn gallu dod, yna anfonwch rodd dos gwelwch yn dda. Mae Liferwr Simon Holt wedi gweithio'n galed i lunio rhaglen amrywiol o artistiaid o safon.

Gan edrych ymlaen at 28ain Hydref byddwn yn cael noson 'Cyri'r Fyddin' yn Neuadd Masonic Caerdydd. Ar yr 8fed o Dachwedd fe fyddwn yn cael darlith gan David Maddox, OBE ar 'Derfysgoedd Tonypandy' ym Mharc Treftadaeth y Rhondda. Fe fydd ein Gwasanaeth Carolau a Swper yn St. Basil, Bassaleg ar y 7fed o Rhagfyr 2023; Mae Uwch Gynorthwy-ydd y Llys, Jane Croad a'i Mam wedi gwirfoddoli i drefnu'r arlwyo.


Rwy'n edrych ymlaen at ymuno â Grŵp Gogledd Cymru ar eu penwythnos oddi cartref ar 17eg – 19eg Tachwedd 2023 ac ar gyfer Sul yr Adfent yn Llanelwy ar y 3ydd o Rhagfyr.

Mae gennym ryw bedwar o Liferwyr newydd i'w gwisgo; Anogwch eich ffrindiau a'ch cydweithwyr i ddod i ymuno.

Edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan.
Cofion gorau,

John

**CYNGERDD ELUSENNOL GALA DDYDD SADWRN 30ain MEDI**







Bydd adroddiad llawn o'r digwyddiad elusennol gwych hwn yn cael ei gyhoeddi yn rhifyn nesaf Bwletin Lifrai Cymru.

## 2023 GWINOEDD A CHANAPÉS YNG NGARDD FFISIG Y BONT-FAEN - 21 GORFFENNAF



Mwynhaodd y Liferwyr a'u gwesteion noson hudolus iawn yng Ngardd Ffisig y Bont-faen. Roedd y tywydd yn dda ac roedd pawb yn mwynhau rhywfaint o win hyfryd a chanapés blasus iawn.

















Mwy o wybodaeth
https://liverycompanywales.cymru/downloads/250723-wines-and-canapes-at-the-physic-garden.pdf

**Yr Uwchgapten John Charles**
**Meistr, 2023-2024**

<u>**CINIO’R LLYS YN LLETY NANT DDU AR DDYDD SUL 3edd MEDI 2023**</u>



Ar brynhawn braf, heulog, ymgasglodd tua 44 o Liferwyr, partneriaid a gwesteion mewn ystafell breifat yn Llety Nant Ddu. Mae'r sefydliad ger cefnffordd yr A470 ac yn nythu ym mhen Dyffryn Taf rhwng cronfeydd dŵr Llwyn-on a Cantref.

Fe wnaethon ni fwynhau preifatrwydd ein hystafell ein hunain a chafwyd amser llawen; cawsom bryd o fwyd blasus. Roedd bwrlwm y sgwrsio yn eithaf uchel; gwnaeth pawb a oedd yn bresennol sylwadau ar y gwmnïaeth dda yn y digwyddiad.



Y Meistr, Uwch Warden, Warden Iau ac Uwch Gynorthwyydd y Llys ynghyd â 36 o Liferwyr eraill yn mwynhau Cinio’r Llys yn Llety Nant Ddu.








Canodd y cynulliad 'Pen-blwydd hapus' i’r Meistr Blaenorol, Stuart Castledine, gan mai dyma oedd y diwrnod cyn ei ben-blwydd yn 70 oed.

## ENILLWYR GWOBRAU 2022







**Enillwyr Gwobrau'r Coleg Brenhinol Cymreig Cerdd a Drama**

Ar 6ed Gorffennaf 2023 cyflwynwyd eu Tystysgrifau i **Oliver Manning** (enillydd y Wobr Gerdd) a **Meara Hamlin** (enillydd y Wobr Llwyfan a Drama) gan Cynorthwywr y Llys Keith Shankland,ac Aelodau'r Pwyllgor Gwobrau Hazel Taylor-Day a Sylvia Robert-Sargeant.

**Enillydd Gwobr Llwyfan a Drama CBCCD**

**Mae Meara Hamlin** newydd gwblhau ei lleoliad gwaith gyda Cosprop, cwmni gwneud gwisgoedd a llogi ar gyfer ffilm, teledu a theatr. Am ei hadroddiad llawn https://www.liverycompanywales.cymru/award-winners-in-2022.html

**Mae Gwobr Allgymorth CBCCD** wedi galluogi **Oliver Manning** i gynorthwyo gyda thiwtora, mentora a chysgodi yng nghynllun Ensemble Gitâr Sirol Ieuenctid Caerdydd. Ei adroddiad llawn -

https://www.liverycompanywales.cymru/award-winners-in-2022.html

## ENILLYDD GWOBR Y MEISTR – SODDGRWTHWR 2022 BEN TARLTON



Yn ddiweddar, derbyniodd Ben, sylfaenydd Gŵyl Gerdd Siambr Llanilltud Fawr grant hael gan Sefydliad Waterloo, a wnaed yn ôl disgresiwn eu Hymddiriedolwyr ac ni fyddai wedi bod yn bosibl oni bai am gefnogaeth Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru yn eu gwaith allgymorth a'i ddewis i dderbyn Gwobr y Meistr.

Mwy o wybodaeth:
https://www.liverycompanywales.cymru/award-winners-in-2022.html

## YSGOLORIAETH TEITHIO AR GYFER NEWYDDIADURAETH 2023




Enillydd Gwobr Ysgoloriaeth Teithio Newyddiaduraeth Phoebe Williams gyda Liferwr Andrew Broad a'r Uwch Warden Agnes-Xavier Phillips JP DL.

Bydd Phoebe yn archwilio ac yn adrodd ar ganlyniadau newid yn yr hinsawdd sy'n wynebu'r diwydiant gwinllannoedd, gan gynnwys gwinllannoedd yng Nghymru a Ffrainc. Mwy o wybodaeth am ei phrosiect

https://www.liverycompanywales.cymru/downloads/270723-school-of-journalismn.pdf

## DIWEDDARIADAU GAN Y PWYLLGORAU GWASANAETHU

## PWYLLGOR AELODAETH – DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD







Yn ein hymgyrch i recriwtio Liferwyr newydd, trafododd y Pwyllgor Aelodaeth y posibilrwydd o ofyn i'r Liferwyr presennol awgrymu aelodau newydd i Gadeirydd y Pwyllgor Aelodaeth, Rosemary Solbé.

Mae'r manylion cysylltu yn y Cyfeiriadur Aelodau https://www.liverycompanywales.cymru/members2/members-directory.php

## PWYLLGOR GWOBRAU – DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD



**Henry Gilbert**

Mae'n bleser gan y Pwyllgor Gwobrau gyhoeddi lansiad **Gwobr Ddatblygu Aur BRYAN MARSH** YN Y CYFANSWM O £5000

**Dyddiad Lansio : 1af Hydref 2023**
**Dyddiad cau: 17eg Tachwedd 2023**

**GWOBR DDATBLYGU Y JIWBILÎ ARIAN**
YN Y CYFANSWM O £2500.

**Dyddiad Lansio : 1af Hydref 2023**
**Dyddiad cau : 30ed Tachwedd 2023**

Mae manylion llawn y Wobr, sut i wneud cais a'r ffurflenni cais ar-lein ar ein gwefan https://www.liverycompanywales.cymru/the-awards-scheme.html
*The awards Scheme -All Awards - Bryan Marsh Gold Development Award and Silver Jubilee Development Award*

**Henry Gilbert**
**WI a Chadeirydd y Pwyllgor Gwobrau - 2023**

## PWYLLGOR CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD



Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter, a'r un olaf ar ddydd Llun 25ain Medi 2023

**Agnes Xavier-Phillips**

**BWLETIN LIFRAI CYMRU (BLC)**
Mae'r Bwletin bellach wedi dychwelyd yn ôl i'w gyhoeddiad chwarterol. Mae'n un o'r prif sianeli cyfathrebu ar gyfer y Cwmni, felly darllenwch y BLC i glywed am yr hyn sy'n digwydd yn y Cwmni ac i barhau i ymgysylltu.

**GWEFAN**
Mae ein gwefan yn parhau i ddenu sylw ac mae'n gyfredol felly defnyddiwch hi'n rheolaidd i gadw mewn cysylltiad!
https://liverycompanywales.cymru/index.html

**LLWYFANNAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**
Mae ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hefyd yn denu sylw da ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Cwmni a'i weithgareddau. Rydym yn postio adroddiadau ar y wefan yn fisol ac ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar y cyd a ddiogelir gan gyfrinair i'n haelodau os ydych am weld yr ystadegau.
Cliciwch yma https://www.liverycompanywales.cymru/members2/

**Y TÎM CYMRAEG**
Mae'r Tîm Cymraeg yn gwneud gwaith gwych o brawf ddarllen cyfieithiad Cymraeg y BLC; fodd bynnag, bu'n rhaid i gwpl o aelodau gamu i lawr oherwydd eu hymrwymiadau gwaith ac rydym yn chwilio am Liferwyr ddwyieithog sy'n fedrus yn yr iaith Gymraeg i ymuno â'r Tîm. Cysylltwch â'r asstclerk@livery.cymru os oes gennych ddiddordeb.

## DIWEDDARIAD AR Y CANOPI GWYRDD YNG NGWENT, DE CYMRU

Roeddem yn falch iawn o weld y goeden dderw a blannwyd ar 25ain Chwefror 2022 gan Arglwydd Raglaw Gwent ym mhresenoldeb Uchel Siryf Gwent, Caplan y Cwmni, Liferwyr a'r Meistr ar y pryd, Dr Kathy Seddon, wedi goroesi a ffynnu ers hynny fel y gwelir yn y lluniau. Roedd y goeden ymhlith y rhai a blannwyd gan y Cwmni i gyfrannu at Canopi Gwyrdd y Frenhines

**CHWEFROR 2022** **MEDI 2023**







**ORIEL LUNIAU O DDETHOLIAD O DDIGWYDDIADAU LIFRAI 2023 A ADRODDWYD YN Y BLC**



**Agnes Xavier-Phillips JP DL**
**UW & Cadeirydd PCC - 2023**

## SWYDDI GWAG AR GYFER YMDDIRIEDOLWYR ELUSEN YR URDD

Mae cangen elusennol Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru yn ceisio penodi dau Ymddiriedolwr newydd i lenwi swyddi gwag yng ngwanwyn 2024.

Byddai'r Ymddiriedolwyr newydd yn ymuno â thîm o saith ymddiriedolwr presennol. Fel arfer, mae Ymddiriedolwr yn gwasanaethu am gyfnod o 5 mlynedd a gellir ei ailbenodi am ail dymor o 5 mlynedd.

Nid yw'r rôl yn gofyn am unrhyw gefndir cyfreithiol neu gefndir proffesiynol arall. Fodd bynnag, mae gwybodaeth neu brofiad yn gyffredinol mewn elusennau, buddsoddiadau a materion cyfreithiol eraill i gyd yn rhan o friff yr Ymddiriedolwr newydd (byddai profiad fel llywodraethwr ysgol, er enghraifft, neu debyg yn helpu).
Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn yng Nghaerdydd ac mae'r rôl yn ddi-dâl.

Anogir unrhyw Liferwr a hoffai gael ei ystyried ar gyfer y rôl i gael sgwrs anffurfiol yn y lle cyntaf gyda'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd. Anogir Liferwyr i argymell unrhyw rai nad ydynt yn aelodau y gallent eu hystyried yn addas. Cysylltwch â'r **Cadeirydd Dyfrig James** neu'r **Ysgrifennydd: Charles Slatter**. Gellir dod o hyd i'w manylion cyswllt yn y Cyfeiriadur Aelodau
https://liverycompanywales.cymru/members2/downloads/120723-directory-of-liverymen-updated-july-2023.pdf

Manylion llawn y swyddi gwag
https://www.liverycompanywales.cymru/the-charitable-trust.html

## CORFFORAETH DINAS LLUNDAIN

## ETHOL ARGLWYDD FAER DINAS LLUNDAIN



Mynychodd yr Uwch Warden Agnes Xavier- Phillips, JP, DL, gyfarfod o'r Neuadd Gyffredin yn Neuadd y Ddinas Llundain ar 29ain Medi 2023 ar gyfer ethol Michael Mainelli fel 695fed Arglwydd Faer Dinas Llundain ac yna cinio gyda'r Meistr y Cyfreithiwr Sarah de Gay, cyd-liferwr o Gwmnïau'r Cyfreithwyr a'r Cynllunyddion Dinas Llundain yn Neuadd y Cigyddion.



# PARTNERIAETH Â LIFRAI LLUNDAIN

THE WORSHIPFUL COMPANY OF
WAX CHANDLERS



Ar ddydd Iau 3edd Awst, gwahoddwyd Uwch Warden Agnes Xavier- Phillips JP DL gan gyn-Arglwydd Faer Dinas Llundain, y Fonesig Fiona Woolf CBE i'w Chinio Gosod yn Neuadd y Masnachwyr Canhwyllau Cwyr. Cafodd ddiodydd cyn y cinio yng Ngardd y Gofaint Aur, oasis gwyrdd yng nghanol adeiladau uchel. Cafwyd areithiau ar y noson gan "**The Double Act Masters"** (Meistr y Masnachwyr Canhwyllau Cwyr, y Fonesig Fiona Woolf a Chymar Meistr y Garddwyr Nicholas Woolf.)










**CINIAWAU CWMNIAU Y PLÂT TUN A GWNEUTHURWYR BASGEDI GORFFENNAF 2023**

Ar ddydd Mawrth 25 Gorffennaf 2023, mynychodd y Meistr Ginio Gosod Cwmni Anrhydeddus y Plât Tun yn y Plasty. Cafwyd areithiau ar y noson gan y Siryf Jonathan King a'r prif westai Rt Hon Richard Caborn, y cyn Weinidog tros Chwaraeon. Roedd ein Cyn Feistr Dr Keith Williams Liferwr Plât Tun a'i wraig Janet Williams hefyd yn bresennol ac yn cwrdd â'r Meistr.



Ar ddydd Mercher 26 Gorffennaf, cynhaliodd Cwmni Anrhydeddus y Gwneuthurwyr Bascedi eu Swper Masnach yn Neuadd y Piwteriaid. Mynychodd ein Meistr a Liferwr a Chyn-Feistr y Gwneuthurwyr Bascedi Roger Harper y cinio hwn. Y prif siaradwr oedd yr Henadur Alison Gowman.



Mwy o wybodaeth
https://liverycompanywales.cymru/downloads/270723-tin-plate-and-basketmakers.pdf

## GYRRU DEFAID A FFAIR LIFRAI 2023

**PONT SOUTHWARK DYDD SUL 24ain MEDI 2023**



Roedd y Cyn Feistr, Dr Kathy Seddon, a'r Meistr Blaenorol Stuart Castledine o GALC yn ymarfer eu hawl fel Rhyddfreinwyr Dinas Llundain i fugeilio defaid dros Bont Southwark.

## 2023 BRECWAST YR HERWYR YN Y NEUADD BRENHINOL HARROGATE – 7ed GORFFENNAF 2023





### Darlith yr Herwyr 2023 "Beth ydw i'n cael ei gynnig – Bywyd o dan y Morthwyl"

Philip Serrell – Arbenigwr Hen Bethau, Arwerthwr, Awdur, Darlledwr, Aelod o Gwmni Dilledyddion Caerwrangon..

Yn y digwyddiad, cynrychiolwyd 76 o Gwmnïau Lifrai gan 275 o Liferwyr a gwesteion gan gynnwys 23 o Feistr presennol a Llywydd Clwb Lifrai y Ddinas. Mae'n bleser mawr gweld Cyn-Feistri CALC Windsor Coles a Stuart Fletcher yn bresennol.



Wyneb cyfarwydd arall oedd Meistr y Gwŷr Gwlan ac Arglwydd Faer Dinas Llundain 2021/2022, Vincent Keaveney CBE.

**DYDDIADAU PWYSIG**

**Dydd Mercher 25ain Hydref**
Neuadd Gyffredin – Clwb Caerdydd a'r Sir



**Dydd Sadwrn 28ain Hydref**
Noson Cyri yn Neuadd y Meiswyr Caerdydd



**Dydd Mercher 8ed Tachwedd**
Darlith gan D Maddox OBE ar "Terfysgoedd Tonypandy"



**Dydd Iau 7ed Rhagfyr**
Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Basil, Basseleg



**Dydd Iau 8 Ionawr 2024**
Cinio Llundain yng Nghlwb Gwasanaethau Buddugoliaeth



**DONATE JUST GIVING**
Mae'r CALC yn falch o dderbyn rhoddion trwy JUST GIVING ar y wefan – Cliciwch ar y bar botwm "Donate". Fel arall, gallwch gysylltu â'r Trysorydd yn treasurer@liverycompanywales.cymru

**Y TÎM GOLYGYDDOL**
Bydd rhifyn nesaf y Bwletin Lifrai Cymru yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

Os oes gennych unrhyw erthyglau yr hoffech eu cynnwys mewn rhifynnau o BLC yn y dyfodol, cysylltwch ag **Agnes Xavier-Phillips JP DL (Cadeirydd PCC)** ac **Angela Parry MBE (Clerc Cynorthwyol),** sy'n llunio BLC yn seiliedig ar gyfraniadau/erthyglau a dderbynnir.

©WLCoW